**Arweiniad i fyfyrwyr PCYDDS sydd mewn cyflogaeth**

Yn ystod y tymor, ac mewn amgylchiadau arferol:

Mae’r Brifysgol yn cydnabod y gall cymryd rhan mewn cyflogaeth fod yn angenrheidiol, a hefyd yn fuddiol i ddatblygiad gyrfaol myfyrwyr. Mae’n bwysig, fodd bynnag, nad yw hyn yn effeithio’n negyddol ar gynnydd eu hastudiaethau.

Dylai myfyrwyr ystyried yr effaith y gallai unrhyw waith cyflogedig, di-dâl, gwirfoddol neu elusennol ei chael ar gwblhau eu hastudiaethau'n brydlon.  Argymhellir yn gryf na ddylai myfyrwyr amser llawn ymgymryd â mwy nag 20 awr o waith cyflogedig neu ddi-dâl yn ystod yr wythnos waith arferol.

Rhaid i fyfyrwyr rhyngwladol sicrhau hefyd eu bod yn bodloni unrhyw ofynion a bennir gan eu fisa. Os yw myfyrwyr yn cael eu noddi gan sefydliadau eraill, rhaid iddynt gydymffurfio bob amser ag unrhyw amodau o ran cyflogaeth fel y nodir gan eu noddwyr.

Os bydd myfyriwr amser llawn sy'n penderfynu gweithio mwy na'r 20 awr yr wythnos a argymhellir yn dangos cynnydd academaidd anfoddhaol mewn unrhyw ffordd, gellir cynghori'r myfyriwr i leihau nifer yr oriau a weithir. Fel arfer, ni fyddai myfyriwr amser llawn sy'n dewis peidio â dilyn arweiniad y Brifysgol, ac sy'n gweithio mwy nag 20 awr yr wythnos, yn cael unrhyw gais am Amgylchiadau Esgusodol ar sail oriau gwaith wedi’i gymeradwyo; hefyd fel arfer ni fyddai gweithio mwy nag 20 awr yn sail i wneud cais am estyniad i'r terfyn amser hwyaf ar gyfer cwblhau rhaglen astudio.

Mae cefnogaeth ar faterion yn ymwneud â chyflogaeth ar gael yma trwy’r Hwb Myfyrwyr:

Arweiniad Gyrfa » Hwb (uwtsd.ac.uk)

Cymorth Ariannol » Hwb (uwtsd.ac.uk)